Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# GRWP GWAITH FFORWM YSGOLION
# Dydd Mawrth, Ionawr 10fed 2023
# (Microsoft Teams)

## N O D I A D A U

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Ryan Morgan (Patneriaeth DdysguTaf Bargoed) - Cadeirydd<br>Stuart James (Afon Taf)<br>Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)<br>Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)<br>Alwen Bowen (Ysgol Rhyd Y Grug)<br>David Anstee (Ysgol Y Graig)<br>Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio a Gwella Ysgolion)<br>Ian Kent (Cyfrifydd Addysg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Joanna Lewis (Rheolwr LMS)<br>Gary Winston (Clerc i'r Fforwm) |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithred |
|---|---|
| **1.** | **Croeso**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolch iddynt am eu presenoldeb. |
| **2.** | **Cyllido ADY – Pontio i GDU**<br>Esboniodd Ian Kent bod y system bresennol o gyllido ADY yn cael ei adolygu oherwydd y newid i ddarpariaeth ADY.<br><br>Cyllid Cymorth Iaith<br>Roedd angen cytuno ar gynllun pontio ar gyfer Cymorth Iaith wrth i ysgolion symud o WY a GY+ a'r lleihad yn nifer y plant ar y Gofrestr ADY. Os byddai'r system bresennol yn parhau, byddai yn golygu lleihad sylweddol yn y cyllid i ysgolion wrth i niferoedd y disgyblion GY a GY+ ddisgyn.<br><br>Cyflwynwyd model a oedd yn cynnwys manylion am niferoedd disgyblion GY, GY+ a disgyblion gyda datganiad dros y tair blynedd ddiwethaf (2020, 2021 a 2022) gyda ffigyrau CDU hefyd yn cael ei ystyried yn 2022 h.y. y cyfanswm disgyblion ar gofrestr AAY a ADY. Y cynnig yw i'r cyllid ar gyfer 2023/2024 fod yn seiliedig ar y nifer uchaf dros y tair blynedd ddiwethaf. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw Ysgol yn derbyn llai o gyllid yn y cyfnod pontio.be based on the highest figure over the last three years.<br><br>**OM:** **Rydym i gyd wedi bod yn ceisio lleihau'r niferoedd ddisgyblion ADY, ond wrth edrych ar y ffigyrau mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod mewn rhai ysgolion?**<br>AL: Mae'r wybodaeth wedi ei gasglu o PLASC y llynedd. Rydym yn cydnabod bod ysgolion mewn mannau gwahanol yn y newid i ADY. Byddem yn disgwyl i'r niferoedd ddisgyn ond dyw hyn ddim wedi digwydd ym mhob man yn ôl PLASC.<br><br>Mae angen trafodaeth bellach i ystyried sut rydym yn clustnodi ar gyfer ADY yn yr hir dymor, ond yr hyn rydym yn ceisio gwneud nawr yw cytuno ar y cyfnod pontio. |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithred |
|---|---|
| | **RM:** **Rwy'n pryderu y bydd rhai ysgolion yn parhau i dderbyn lefel uchel o gyllid.**<br>AL: Mae hyn yn wir, ond y tuedd cyffredinol yw bod lleihad yn y niferoedd disgyblion ADY, ac mae hyn yn gymharol gyson.<br><br>**OM:** **Ddylen ni ddim ond defnyddio ffigyrau 2022?**<br>**AB:** **Allwn ni ddefnyddio cyfartaledd o ffigyrau'r tair blynedd?**<br><br>DA: Mae niferoedd fy Ysgol i wedi mynd fyny, ond doedd dim darlun cywir nol yn 2021, felly mae ffigyrau 2022 yn fwy manwl. Gall ystyried y cyfartaledd fod yn opsiwn da.<br><br>OM: Byddai'r cyfartaledd yn rhoi'r ysgolion sydd wedi mynd ati i leihau'r niferoedd ADY dan anfantais.<br><br>AL: Os byddem ni'n defnyddio ffigyrau 2022 yn unig fyddai yn rhoi'r ysgolion sydd wedi mynd ati i leihau'r niferoedd ar y gofrestr AAY dan anfantais.<br><br>**SH:** **Beth yw barn y Tîm ADY am y model?**<br>AL: Roedd Jill Watkins yn cytuno ei fod yn fodel rhesymol dros y cyfnod pontio, gan fod ysgolion mewn mannau gwahanol o bontio ac mae yn amddiffyn cyllid ysgolion felly dyw ysgolion ddim yn cael eu cosbi am fod yn rhagweithiol.<br><br>SH: Rydym angen system fwy grymus gyda mwy o atebolrwydd.<br><br>RM: Mae angen edrych ar ddata PLASC 2023 yn ofalus.<br><br>AL: Fydd dim angen defnyddio'r model hwn yn 2024, dim ond model pontio yw e am eleni. Bydd data PLASC o fis Ionawr i ystyried yn fformiwla pontio'r flwyddyn nesaf. Bydd hefyd angen datblygu model newydd sy'n addas i'r system newydd pan fydd pob disgybl wedi trosglwyddo o'r gofrestr AAA.<br><br>**RM:** **Ydyn ni'n hapus i gefnogi'r model pontio a gynigwyd ar gyfer 2023?**<br><br>Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y model pontio yn seiliedig ar y nifer uchaf o ddisgyblion AAA ac ADY dros y tair blynedd ddiwethaf fel y model cyllido Cymorth Iaith yn 2023/2024.<br><br><u>Cyllid Anghenion Cymdeithasol</u><br>Nodwyd nad yw'r model presennol yn cynnwys niferoedd GY, dim ond GY+, Datganiadau a CDU. Mae'r model presennol yn seiliedig ar ddata cyfartalog y tair blynedd ddiwethaf am gyfanswm disgyblion GY+, Datganiadau a CDU. Ni awgrymwyd gwelliannau ar gyfer y model cyllid hwn gan nad yw yn cosbi ysgolion sydd wedi bod yn rhagweithiol gyda phontio.<br><br>Cynigwyd i barhau defnyddio'r model pontio yn ystod y cyfnod hwn. |
| **3.** | **<u>Lleihad yn y Gyllideb Gyllido Fformiwla 2023/2024</u>**<br>Esboniodd Ian Kent bod y Fforwm Ysgolion wedi cael gwybod am y lleihad o £2.5 miliwn mewn cyllido ysgolion o ganlyniad i Fformiwla Cyllido'r Awdurdod Lleol, a bod y Grŵp Gwaith i ystyried modelau ar gyfer gweithredu'r lleihad.<br><br>Cyflwynwyd dau fodel:<br>Roedd y ddau fodel yn cynnwys gostwng y lwfans gwisg Ysgol o gyllideb yr ysgolion uwchradd gan nad yw'r cyllid hwn bellach yn angenrheidiol oherwydd y Grant Mynediad GAD i bob oedran. |

| Rhif | Trafodaeth/Gweithred |
|---|---|
| | Mae'r dyraniad lwfans gwisg Ysgol wedi ei dynnu o'r ysgolion Cynradd yn unig.<br><br>• Model 1 – Cael gwared a'r lwfans gwisg Ysgol o'r fformiwla i ysgolion uwchradd -cyfanswm o £67,500. Dod o hyd i'r gweddill o'r £2,432,500 yn seiliedig ar ostyngiad o 5.14% i bob ysgol. Nid yw'r gostyngiad hwn o 5.14% yn cynnwys y cyllid LRB i ysgolion.<br><br>• Model 2 - Cael gwared a'r lwfans gwisg Ysgol o'r fformiwla i ysgolion uwchradd -cyfanswm o £67,500. Dod o hyd i'r gweddill o'r £2,432,500 yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae hyn o fantais i'r Ysgol Arbennig oherwydd ei nifer is o ddisgyblion.<br><br>SH: Byddwn i'n eilio sylwadau Simone o gyfarfod neithiwr, ble dwedodd os ydym yn derbyn hyn, mae'n golygu ein bod yn gallu ymdopi gyda'r toriad. Nid yw yn ystyried yr effaith y bydd yn ei gael ar safonau a'r gallu i weithredu'r Strategaeth CDCS.<br><br>RM: Allwch chi ddim disgwyl i ysgolion barhau i wneud beth maent wedi ei wneud yn flaenorol os ydych yn torri staff. Bydd effaith ar Ymyrraeth ac fe fydd hyn yn cael effaith ar safonau.<br><br>OM: Mewn gwirionedd does dim llawer o ddewis gennym ni, mae'r Ysgol i bob Ysgol gael yr un gostyngiad i'w weld yn decach ac yn golygu y bydd llai o ddrwg deimlad rhwng ysgolion.<br><br>Esboniodd AL bod opsiynau eraill hefyd wedi cael eu hystyried h.y. lleihau'r cyllid i Ddeunyddiau ac Adnoddau neu ddyraniad y pen ond nad oedd digon o gyllid yn rhain i ddod i'r arbediad o £2.5 miliwn. Os byddai model 1 neu 2 yn cael ei gytuno byddai'r % o ostyngiad i fformiwla pob Ysgol yn ymddangos fel llinell yn y daflen dyraniad fformiwla.<br><br>**RM: Pa mor fuan fydd ysgolion yn derbyn y fformiwla newydd yn cynnwys y toriadau?**<br><br>AL: Os gallwn ni gytuno heddiw, fe allwn ni geisio cael y fformiwla ddangosol allan yr wythnos hon. Byddwn yn rhannu gyda'r Swyddogion Cefnogi Ysgolion, a gallwch chi ddechrau asesu'r effaith.<br><br>**RM: Ydyn ni'n hapus i bleidleisio ar Fodel 1?**<br><br>Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn Model 1, sy'n rhoi ar waith ostyngiad o 5.14% i bob Ysgol fel y model dewisol.<br><br>Bydd yr opsiwn a argymhellir yn cael ei roi gerbron y Fforwm Ysgolion yn y cyfarfod yr wythnos nesaf, ac os yw'n cael ei dderbyn yn mynd at ymgynghoriad gyda phob ysgol/ corff llywodraethu. |